

# Cofnodion

Fforwm Derbyniadau Casnewydd

Dyddiad: 20 Mawrth 2018

Yn Bresennol: Esgobaeth Gatholig (Yn y Gadair)  
Rheolwr Datblygu Gwasanaeth (Is-Gadeirydd)  
Rheolwr Derbyniadau ac Apeliadau  
Swyddog Craffu a Chomisiynu Addysg  
Cynrychiolydd Ysgolion GaG  
Cynrychiolydd Ysgolion GaG  
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol  
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol  
Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr  
Cynrychiolydd Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Addysg (dim Pleidlais)

Clerc y Fforwm

Ymddiheuriadau: Aelod Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc  
Prif Swyddog Addysg  
Rheolwr Gwasanaeth GCY  
Cynrychiolydd Cymunedau Lleol – Blynyddoedd Cynnar  
Esgobaeth Anglicanaidd Trefynwy  
Cynrychiolydd Cymunedau Lleol (AAA)  
Cynrychiolydd Cymunedau Lleol - GEMS

## 1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Ymddiheuriadau am absenoldeb fel y nodwyd uchod.

## 2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2017

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir.

## 3. Materion yn Codi

Dim.

## 4. Adolygu Aelodaeth

Nododd RH y diweddariadau canlynol i'r Fforwm;

- Mae 2 swydd wag rhiant-lywodraethwr wedi'u llenwi gan RH a KA a bydd y ddau aelod yn cael gwahoddiad i'r Fforwm Derbyniadau nesaf.

- Mae JW, cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol a GaR, wedi ymddeol ac felly bydd e-bost yn cael ei anfon at bob pennaeth Uwchradd er mwyn penodi rhywun arall.
- Mae KB, cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol a GaR, wedi cael swydd ar secondiad, felly bydd AS yn cymryd drosodd ei swydd.
- Mae JM wedi llenwi'r swydd wag cynrychiolydd Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr.
- Mae amser DW yn y swydd wedi dod i ben mewn perthynas â'r rôl fel Cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol, fodd bynnag mae wedi'i gytuno y caiff hyn ei adnewyddu'n unol ag ymyrraeth parhaus mewn Derbyn i Ysgolion.
- Mae KD, Cynrychiolydd y Gymuned Leol, wedi llwyddo i gael swydd y tu allan i Gyngor Dinas Casnewydd ac o ganlyniad, trafodwyd diolchiadau a dymuniadau gorau KD gyda'r aelodau fforwm. Does neb arall wedi'i gadarnhau i'w disodli hyd yma.

## 5. Diweddariadau Derbyniadau Medi 2018

JL – rhoddodd ddiweddariad i'r Fforwm ar sefyllfa bresennol rownd derbyn Medi 2018.

### Uwchradd

Y dyddiad cynnig ar gyfer rownd Derbyn i Ysgolion Uwchradd ar amser ym mis Medi 2018 oedd 1 Mawrth 2018.

Ar hyn o bryd ac yn wahanol i'r arfer, mae Ysgol John Frost yn llawn ar ôl y rownd ar amser hwn ac mae gan Ysgol Sant Julian leoedd ar gael.

- Derbyniwyd 1617 o geisiadau erbyn y dyddiad cau, gwnaethpwyd 82% ohonynt ar-lein (cynnydd o 89% y llynedd);
- O'r 1558 o leoedd a ddyrannwyd i ysgolion Casnewydd, roedd 95% yn rhai dewis cyntaf;
- Mae 18 disgybl sydd heb gynnig, ond dim ond 4 o'r rhain sy'n breswylwyr Casnewydd sydd wedi cael gwahoddiad i gyflwyno dewisiadau amgen;
- Mae gwrthodiadau wedi bod yn Basaleg, Ysgol Gyfun Caerllion ac Ysgol Uwchradd Casnewydd, doedd yr un ohonynt yn ymgeiswyr o'r dalgylch;
- Mae 159 o geisiadau'n weddill oherwydd ar ddyddiad y cynnig, does dim ohonynt o ysgolion cyfrwng Cymraeg;
- Mae 226 o leoedd yn dal ar gael, gan gynnwys 31 yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.

### Cynradd

Bydd penderfyniadau ar dderbyniadau i ddosbarthiadau derbyn yn cael eu cyflwyno 16 Ebrill 2018 ac felly mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn seiliedig ar ragolygon dangosol yn unig.

## 6. Diweddariad Derbyniadau Yn ystod y flwyddyn

Gofynnwyd i aelodau'r Fforwm nodi'r uchafbwyntiau canlynol yn yr adroddiad atodol;

Nododd JL bod Casnewydd wedi derbyn nifer sylweddol uwch o geisiadau yn ystod Tymor yr Hydref 2017.

### Cynradd

- Derbyniwyd 627 o geisiadau yn ystod tymor yr hydref, a 44% ohonynt o ganlyniad i symud tŷ i mewn i'r ddinas;
- Roedd 20% o'r ceisiadau'n ymwneud â disgyblion gyda Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY);
- Cafwyd 26 o apeliadau cynradd yn ystod y flwyddyn yn y cyfnod hwn, cafodd 4 eu pasio o blaid y rhiant.
- Mae nifer y ceisiadau'n dal i fod yn heriol.

### Uwchradd

- Derbyniwyd 183 o geisiadau yn ystod tymor yr hydref, a 54% ohonynt o ganlyniad i symud tŷ i mewn i'r ddinas;
- Roedd 17% o'r ceisiadau'n ymwneud â disgyblion gyda Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY);
- Cafwyd 6 apêl derbyn i ysgolion uwchradd yn ystod y flwyddyn.

### Meithrin

- Derbyniwyd 80 o geisiadau yn ystod tymor yr hydref;
- Roedd 11% o ganlyniad i symud tŷ i'r ddinas;
- Roedd 3% o'r ceisiadau'n ymwneud â disgyblion gyda Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY);

## 7. Argaeledd Llefydd Ysgol,

Rhoddodd JL adroddiad a thrafododd y prif bwyntiau.

Roedd argaeledd lleoedd ysgol gynradd yn dal i fod yn broblem mewn sawl ardal yn y ddinas. Mae'r adroddiad hwn yn trafod y sefyllfa fel ag yr oedd ar 5 Chwefror 2018.

- Mae gan ysgolion cyfrwng Saesneg yng ngorllewin y Ddinas lai o leoedd ar gael;
- Does dim llawer o leoedd ar gael yn y Cyfnod Sylfaen;
- Argaeledd clwstwr cyfrwng Cymraeg – 17% cynradd a 22% uwchradd;
- Argaeledd clwstwr Gatholig - 3% cynradd (dim uwchradd ar gael);
- Dim ond 1 lle sydd ar gael yng nghlwstwr ysgolion Basaleg yn y cyfnod sylfaen, a dim lleoedd yn CA3 na CA4.
- Cyfanswm y lleoedd sydd ar gael ar y lefel gynradd yw 7% (heb gynnwys meithrin)
- Cyfanswm y lleoedd sydd ar gael ar lefel uwchradd yw 12%
- Targed Llywodraeth Cymru yw 10% neu lai o leoedd gwag

## 8. Ymgynghoriad ar Drefniadau Derbyn.

Rhwng 23 Ionawr a 1 Mawrth 2018 gwnaeth y Cyngor ymgynghori ar drefniadau derbyn fydd yn berthnasol i ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir yng Nghasnewydd ar gyfer mis Medi 2019.

Rhoddodd JL wybod i'r Fforwm am ganlyniadau'r ymgynghoriad fel y'i nodir yn yr adroddiad Bydd yr ymatebion hyn yn cael eu hystyried a'r polisi terfynol yn cael ei bennu erbyn 15 Ebrill 2018. Felly, bydd pob ymgynghorai yn cael gwybod o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad.

## 9. Rhaglen ad-drefnu

Rhoddodd DW ddiweddariad ar lafar i'r Fforwm ar raglen ad-drefnu'r Cyngor.

## 10. Unrhyw fater arall

Dim.

## 11. Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol

- Mae'r Fforwm Derbyn i Ysgolion nesaf wedi'i gadarnhau ar gyfer dydd Mawrth 19 Mehefin 2018.
- Cynigwyd dydd Mawrth 13 Tachwedd 2018 a'i gytuno fel dyddiad tymor yr Hydref 2018.

Eitem	Gweithredoedd	Swyddog Cyfrifol
4	Gyrru e-bost i ysgolion uwchradd am gynrychiolaeth	RH